SFJDB7

Mynd i’r afael â materion cyn-gwrandawiad o ran achosion llys, tribiwnlys ac erlyn

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â delio â materion cyn-gwrandawiad, er enghraifft y rheiny sy'n arwain at wrandawiadau llys neu dribiwnlys ac y cyfeirir atynt weithiau fel materion dros dro. Mae'n cynnwys delio ag anawsterau sy'n gysylltiedig ag amseroedd a lleoedd ar gyfer gwrandawiadau a mynd i'r afael ag ymholiadau gan bartïon.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, tribiwnlysoedd neu erlyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi materion cyn-gwrandawiad i fynd i’r afael â nhw, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
2. nodi’r camau gweithredu sydd eu hangen i brosesu materion cyn-gwrandawiad, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
3. asesu effaith materion cyn-gwrandawiad ar achosion, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol, gan gynnwys:
3.1 effeithiau ar ddyddiadau a lleoliadau gwrandawiad a drefnwyd
4. cyfeirio materion cyn-gwrandawiad y tu allan i’ch cyfrifoldeb i awdurdodau, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
4.1 eich argymhellion rhesymedig ynghylch y camau i’w cymryd
5. datrys materion cyn-gwrandawiad, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
6. hysbysu partïon am y camau gweithredu cytûn, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol, a:
6.1 trefnu bod gwybodaeth ar gael i’r rheiny sydd ei hangen
7. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
8. cynnal cofnodion o’r holl gamau gweithredu cytûn, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol presennol o ran mynd i’r afael â materion cyn-gwrandawiad 2. pwysigrwydd mynd i’r afael â materion cyn-gwrandawiad a goblygiadau peidio â gwneud hynny 3. mathau o faterion cyn-gwrandawiad a chamau gweithredu sy’n briodol i fynd i’r afael â nhw 4. lefelau cyfrifoldeb ar gyfer delio â gwahanol faterion cyn-gwrandawiad, ac at bwy y dylid cyfeirio os bydd hyn y tu allan i’ch lefel cyfrifoldeb 5. y partïon i’w hysbysu am ganlyniadau materion cyn-gwrandawiad 6. pryd mae angen aildrefnu achosion a sut i wneud hyn 7. pwysigrwydd cadw gwybodaeth yn ddiogel 8. pwysigrwydd cadw cofnodion cywir, yn unol â gofynion sefydliadol

SFJDB7

Mynd i'r afael â materion cyn-gwrandawiad o ran achosion llys, tribiwnlys ac erlyn

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DB7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; erlyn; achos; cyn-gwrandawiad; gwrandawiad; dros dro; gwrandawiad |